

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 06/05/2016

**STATWS: CYDYMFFURFIO**

**CATEGORI: DEDDFWRIAETH**

**Teitl:**  
*Goblygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG (diweddarwyd fel ym mis Ebrill 2016)*

**Dyddiad Dod i Ben / Dyddiad yr Adolygiad:**  
*Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yn disodli Cylchlythyr Iechyd Cymru (2015) 045*

**I'w weithredu gan:**  
*Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG*

**Angen gweithredu erbyn:**  
*6 Ebrill 2016*

**Anfonwr:**  
*Albert Heaney – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru*

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru :**  
*Tîm Gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant  
([SSWBIMPLEMENTATION@wales.gsi.gov.uk](mailto:SSWBIMPLEMENTATION@wales.gsi.gov.uk))*

**Dogfennau amgaeedig:**  
*Dolenni i'r fframwaith deddfwriaethol, gwefan Dysgu GIG Cymru, Hyb Gwybodaeth a Dysgu Cyngor Gofal Cymru a hafan Gofal a Chymorth Llywodraeth Cymru.*

## **CYFLWYNIAD**

Daeth [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 \("y Ddeddf"\)](#) i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'n creu fframwaith deddfwriaethol newydd sy'n dwyn ynghyd y gyfraith sy'n llywodraethu gofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn ei moderneiddio.

Nod y Ddeddf yw gwella canlyniadau llesiant i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt, drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r GIG, yn cydgysylltu'n well ac yn gweithio mewn partneriaeth yn well.

Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod llais yr unigolyn yn ganolog i benderfyniadau ynghylch ei gymorth a'i ofal:

- Bydd yn sicrhau bod pobl yn gallu cael gafaél ar wybodaeth glir, cyngor a chymorth ynghylch y gofal a'r cymorth sydd ar gael yn eu hardal ac mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sefydlu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Bydd yn ofynnol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG ddarparu gwybodaeth i'r gwasanaeth hwn yn eu hardal.
- Bydd yn cyflwyno, am y tro cyntaf, fframwaith statudol cadarn ar gyfer amddiffyn oedolion, a threfniadau arweinyddiaeth cenedlaethol ar gyfer diogelu pobl. Bydd trefniadau diogelu yn cael eu cadarnhau yn rhanbarthol hefyd, a bydd byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yn bartneriaid allweddol yn y broses hon.
- Bydd 'dyletswydd i adrodd' newydd yn sail i hyn, sy'n gymwys i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG pan fo amheuaeth bod oedolyn neu blentyn mewn perygl. Bydd yr awdurdod lleol dan ddyletswydd felly i wneud ymholiadau pellach.
- Yn olaf, mae'r Ddeddf hefyd yn hyrwyddo pwysigrwydd atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn helpu pobl i fyw'n annibynnol.

Mewn sawl ffordd, mae'r Ddeddf yn debyg i egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus. Mae'r egwyddorion hyn yn cyffwrdd â chraidd gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, gan adlewyrchu'r ffocws ar lais dinasyddion, rheolaeth gan ddefnyddwyr a chyd-gynhyrchu a nodwyd yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu* (2011). Yr her ym maes gofal cymdeithasol, fel ym maes gofal iechyd, yw datblygu modelau gwasanaeth cynaliadwy, o ran adnoddau ariannol a'r gweithlu, er mwyn ein helpu i reoli'r galw yn effeithiol a bod yn deg i bawb.

Cafodd y Ddeddf ei datblygu drwy gydweithio agos rhwng cydweithwyr y GIG a gwasanaethau cymdeithasol ynghyd ag ymwneud gweithredol y Fforwm Partneriaeth cenedlaethol a'r Grŵp Arweinyddiaeth, gyda chynrychiolwyr y sector iechyd yng Nghymru yn chwarae rhan sylweddol yn y naill a'r llall. Yn y bôn, mae'r Ddeddf yn ceisio hyrwyddo integreiddio rhwng y ddau sector hyd y gellir, a bydd yn dibynnu ar bob partner yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf er mwyn llwyddo. I'r perwyl hwn, mae nifer o ddyletswyddau'n cael eu rhoi'n benodol ar fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG, er nid ar y naill a'r llall bob tro. Mae rhai o'r dyletswyddau hyn yn cael eu trafod uchod, ac mae mwy o fanylion amdanynt isod.

Er bod prif elfennau y fframwaith cyfreithiol newydd wedi'u nodi ar wyneb y Ddeddf, Deddf sy'n galluogi ydyw, ac o ganlyniad caiff ei hategu gan gyfres o is-ddeddfwriaeth - rheoliadau, codau ymarfer a chanllawiau - er mwyn manylu ar y system newydd a helpu i'w rhoi ar waith.

Mae'r rheoliadau yn cynnwys y manylion neu'r cyfarwyddyd pellach sydd eu hangen wrth weithredu'r Ddeddf, ac mae'r codau ymarfer a'r canllawiau statudol yn cynnig mwy o eglurder i helpu unigolion a sefydliadau (awdurdodau lleol yn bennaf) i weithio yn unol â'r fframwaith newydd sy'n cael ei greu gan y Ddeddf. Daeth y rheoliadau hefyd i rym ar 6 Ebrill 2016, oni nodir fel arall.

## **CYFLAWNI AR Y CYD**

Bydd cydweithio rhwng awdurdodau lleol a'u partneriaid gan gynnwys byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yn sicrhau bod dull gweithredu newydd yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus. Mae'r gwaith gweithredu yn cael ei arwain gan dimau rhanbarthol (yn seiliedig ar ôl troed presennol y bwrdd iechyd) drwy drefniadau arweinyddiaeth ar y cyd, gan adlewyrchu'r rhai a roddwyd ar waith ar lefel genedlaethol. O 6 Ebrill 2016, bydd y rhain yn trosglwyddo i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a sefydlwyd dan Ran 9 o'r Ddeddf, ac mae gan fyrddau iechyd gynrychiolaeth ar y Byrddau hyn.

Ers 2013/14, er mwyn helpu gyda phrosesau gweithredu a pharatoi, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfle i bartneriaethau rhanbarthol gael arian grant Sicrhau Trawsnewid. Mae'r ffrwd gyllido hon wedi galluogi llywodraeth leol a'i phartneriaid i roi gofynion y Ddeddf newydd ar waith. Yn 2015/16, cafodd lefel y cyllid ei dyblu i £3m, a bydd y lefel hon yn parhau hyd 2016/17, i gefnogi'r gwaith o sefydlu'r broses newydd.

## **ADRANNAU O'R DDEDDF (AC IS-DDEDDFWRIAETH BERTHNASOL) SY'N YMWNEUD AG IECHYD NEU DDARPARU GWASANAETHAU GOFAL IECHYD**

### **RHAN 2 – Swyddogaethau Cyffredinol**

- **Adran 14: Asesu anghenion gofal a chymorth, cymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol**

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau cyffredinol a strategol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gael gwell dealltwriaeth o nodweddion ac anghenion eu poblogaethau lleol, er mwyn cynllunio'n effeithiol a darparu amrywiaeth a lefel ddigonol o ofal a gwasanaethau cymorth.

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i **awdurdodau lleol a byrddau iechyd asesu ar y cyd** i ba raddau y mae yna bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, neu ofalwyr y mae angen cymorth arnynt, yn eu hardal. Dylent hefyd asesu i ba raddau nad yw'r anghenion hyn yn cael eu diwallu, a'r amrywiaeth a'r lefel o wasanaethau sydd eu hangen er mwyn diwallu'r anghenion a nodwyd.

Mae'n rhaid i'r asesiad ar y cyd hefyd nodi'r amrywiaeth a'r lefel o wasanaethau ataliol sydd eu hangen yn eu hardal (o dan adran 15, a ddisgrifir isod) ac ystyried sut y caiff pob gwasanaeth a ddarperir o dan y Ddeddf ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae adran 14 hefyd yn ceisio sicrhau bod yr asesiad hwn o'r boblogaeth yn cael ei ystyried fel rhan o fframweithiau cynllunio integredig ehangach, er enghraifft, fel rhan o'r Cynlluniau Llesiant Lleol (sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) a Chynlluniau Tymor Canolig Integredig y GIG. Bydd yr

asesiad hwn hefyd yn llywio awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu dyletswydd o dan aran 16 i hyrwyddo mentrau cymdeithasol.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd **baratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd** ar ffrwyth eu hasesiadau o'r boblogaeth, gyda'r un cyntaf yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru erbyn 1 Ebrill 2017.

Yn ogystal â hynny, mae adran 166 o'r Ddeddf wedi galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydlu trefniadau partneriaeth rhwng y byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol yn ardaloedd y byrddau iechyd perthnasol at ddibenion cyflawni swyddogaethau penodedig. Un o'r swyddogaethau penodedig yw cynnal asesiadau o anghenion y boblogaeth.

Mae'r gronfa gofal canolraddol yn cyd-fynd yn agos â'r gwaith hwn. Mae'n rhoi fwy o bwyslais eto ar ymyrraeth ataliol ac ymyrraeth gynnar. Mae hefyd wedi galluogi awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau'r trydydd sector a'r sector annibynnol, wrth gynllunio sut i gyflwyno eu rhaglenni rhanbarthol, i feithrin dealltwriaeth well o anghenion eu hardal leol, y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i ddiwallu'r anghenion hynny, a phwy sy'n eu darparu.

- **Adran 14A: Cynlluniau yn dilyn asesiadau o anghenion o dan adran 14**

Mae adran 14A<sup>1</sup> yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol gynhyrchu cynllun ardal yn seiliedig ar ganlyniadau'r asesiad o anghenion y boblogaeth. Mae gwaith ar y gweill i baratoi rheoliadau a chanllawiau pellach yn y maes hwn, a bydd y dyletswyddau yn dod i rym ym mis Tachwedd 2016.

- **Adran 15: Gwasanaethau ataliol**

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynllunio a darparu gwasanaethau gyda'r nod o atal, gohirio neu leihau'r angen am ofal a chymorth. Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd **ystyried pwysigrwydd cyflawni'r dibenion ataliol hyn** wrth arfer eu swyddogaethau.

- **Adran 17: Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth**

Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd neu ymddiriedolaethau'r GIG **ddarparu gwybodaeth i'r awdurdod lleol am y gofal a'r cymorth a ddarperir ganddo neu ganddi** yn ardal y priod awdurdod lleol.

Cafodd y [cod ymarfer ar Ran 2](#) o'r Ddeddf (Swyddogaethau Cyffredinol) ei gyhoeddi ar 18 Rhagfyr 2015.

[Rheoliadau Gofal a Chymorth \(Asesiadau Poblogaeth\) \(Cymru\) 2015](#)

[Rheoliadau Gofal a Chymorth \(Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Asesiadau Poblogaeth\) \(Cymru\) 2015](#)

[Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 \(Mentrau Cymdeithasol, Cydweithredol a Thrydydd Sector\) \(Cymru\) 2015](#)

<sup>1</sup> Fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 34 o Atodlen 4 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2015 [http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/pdfs/anaw\\_20150002\\_mi.pdf](http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/pdfs/anaw_20150002_mi.pdf)

## **RHAN 3 – Aseu Anghenion Unigolion**

- **Adran 29: Cyfuno aseuiau o anghenion ac aseuiau eraill**

Caiff awdurdod lleol gynnal aseuiau o anghenion gofal a chymorth unigolion ar yr un pryd ag y bydd ef, neu gorff arall, yn cynnal aseuiau arall. Caiff yr awdurdodau lleol **gynnal aseuiau arall ar ran, neu ar y cyd â chorff arall** (er enghraifft bwrdd iechyd neu ymddiriedolaeth y GIG).

Cafodd y [cod ymarfer ar Ran 3](#) o'r Ddeddf (Aseu Anghenion Unigolion) ei gyhoeddi ar 18 Rhagfyr 2015.

[Rheoliadau Gofal a Chymorth \(Aseu\) \(Cymru\) 2015](#)

## **RHAN 4 – Diwallu Anghenion**

- **Adran 47: Eithriad o ran darparu gwasanaethau iechyd**

Mae'r adran hon yn pennu na all awdurdodau lleol ddarparu na threfnu gwasanaethau neu gyfleusterau a fyddai'n ofynnol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 na Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, oni fyddai hynny'n gysylltiedig â chamau gweithredu eraill o fewn pwerau'r awdurdod lleol neu'n ategol iddynt.

Cafodd y [cod ymarfer ar Ran 4](#) o'r Ddeddf (Diwallu Anghenion) ei gyhoeddi ar 18 Rhagfyr 2015.

## **RHAN 7 – Diogelu**

- **Adrannau 128 a 130: Dyletswydd i hysbysu am oedolion neu blant sy'n wynebu risg**

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG (fel partneriaid perthnasol) **hysbysu awdurdodau lleol os oes ganddynt sail resymol dros gredu bod oedolyn neu blentyn yn eu hardal yn wyneb risg.**

- **Adran 134: Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion**

Mae'r adran hon yn ymwneud â sefydlu Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion. Mae rheoliadau yn nodi'r ardaloedd hynny yng Nghymru lle y bydd Byrddau Diogelu. Bydd y byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG perthnasol yn bartneriaid ac felly bydd ganddynt gynrychiolwyr ar y Byrddau. Mae'r canllawiau statudol ar Ran 7 yn rhoi cyngor ar y lefel briodol o gynrychiolwyr y byrddau diogelu sydd eu hangen i sicrhau bod penderfyniadau effeithiol yn cael eu gwneud gan y byrddau.

Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi cael ei benodi gan Weinidogion Cymru. Bydd yn cynghori Gweinidogion Cymru ar faterion diogelu a bydd yn ffynhonnell cyngor a chanllawiau ar gyfer y byrddau diogelu.

Cafodd [canllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 7](#) (Diogelu) eu cyhoeddi ar 5 Ebrill 2016.

[Rheoliadau Byrddau Diogelu \(Swyddogaethau a Gweithdrefnau\) \(Cymru\) 2015](#)

[Rheoliadau Byrddau Diogelu \(Cyffredinol\) \(Cymru\) 2015](#)

[Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol \(Cymru\) \(Rhif 2\) 2015 \(a ddaeth i rym ar 25 Tachwedd 2015\)](#)

## **RHAN 9 – Cydweithredu a Phartneriaeth**

Mae Rhan 9 o'r Ddeddf yn ymwneud â chydweithredu a phartneriaeth, ac yn rhoi sawl pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau. *Mae rheoliadau yn darparu ar gyfer sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar lefel ardal Bwrdd Iechyd.* Mae'r byrddau hyn yn canolbwyntio **ar wella canlyniadau a llesiant pobl**. Mae'r rheoliadau hefyd yn ceisio gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses o ddarparu gwasanaethau. Bydd disgwyl i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ymateb mewn ffordd ataliol i'r asesiad o'r boblogaeth sy'n ofynnol o dan adran 14 o'r Ddeddf.

Mae'n rhaid i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sefydlu **cronfeydd cyfun** mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau cymorth i deuluoedd ac mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau y maent yn eu harfer ar y cyd fel ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth sy'n ymwneud ag anghenion gofal a chymorth, fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.

Bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol am gyflwyno mentrau a gefnogir gan y gronfa gofal canolraddol £60m yn 2016-17. Bydd partneriaid yn datblygu mesurau gyda'i gilydd i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn byw'n annibynnol ac i ddiogelu pobl eiddil a hŷn a'r rheini ag awtistiaeth ac anghenion dysgu ac anghenion cymhleth.

Bydd cronfeydd cyfun hefyd yn ofynnol ar gyfer arfer swyddogaethau yn ymwneud â darparu llety **cartrefi gofal** i oedolion o fis Ebrill 2018. Yn y cyfamser, rhaid i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol gytuno ar gapasiti'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt gan gartrefi gofal a darparu a datblygu trefniadau comisiynu integredig.

- Mae **Adran 162** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau gyda'u 'partneriaid perthnasol', sy'n cynnwys byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG, er mwyn hyrwyddo cydweithrediad. Mae'r cydweithrediad hwn yn ofynnol o ran oedolion y mae angen gofal a chymorth arnynt, ac oedolion sy'n ofalwyr. Mae hyn yn cynnwys gwella llesiant, ansawdd gofal a chymorth ac amddiffyn oedolion sy'n wynebu'r risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Mae'n rhaid i bob partner perthnasol **gydweithredu â'r awdurdod lleol wrth wneud trefniadau** o dan yr adran hon a chânt ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety, sefydlu a chynnal cronfa gyfun a rhannu gwybodaeth â'i gilydd. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol a'i bartneriaid perthnasol hefyd ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

- Mae **Adran 163** yn diwygio Deddf Plant 2004 ac yn pennu trefniadau (sy'n adlewyrchu'r rhai sy'n ofynnol gan adran 162) i awdurdodau lleol hyrwyddo

cydweithrediad â'u partneriaid perthnasol, gan gynnwys byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG, mewn perthynas â phlant. Mae hyn yn cynnwys gwella llesiant, ansawdd gofal a chymorth ac amddiffyn plant sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu o ddioddef math arall o niwed. Mae dyletswydd cyfatebol yn cael ei osod ar gyrff iechyd yn Lloegr gan adran 164A o'r Deddf, fel y'i mewnosodwyd gan y rheoliadau hynny<sup>2</sup>.

- Mae **Adran 164** yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG **gydweithredu ag awdurdodau lleol a rhoi gwybodaeth iddynt** os gofynnir iddynt wneud hynny – oni fydd gwneud hynny yn anghydnaws â'u dyletswyddau eu hunain neu'n cael effaith andwyol ar eu swyddogaethau eu hunain fel arall – er mwyn eu galluogi i arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Mae Adran 27 o Ddeddf Plant 1989 (fel y'i diwygiwyd gan reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru gydweithredu ag awdurdodau lleol yn Lloegr pan ofynnir iddynt wneud hynny, os yw hynny'n gydnaws â'u dyletswyddau a'u goblygiadau statudol, neu eraill, eu hunain ac nad yw'n rhagfarnu'n ddiangen y modd yr arferir unrhyw un o'u swyddogaethau.

- Mae **Adran 165** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau o ran gwasanaethau cymdeithasol gyda'r nod o sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu hintegreiddio â darpariaeth iechyd a darpariaeth sy'n ymwneud ag iechyd pe byddai'n:
  - hyrwyddo llesiant plant neu oedolion y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt
  - cyfrannu at atal neu ohirio anghenion gofal a chymorth ac/neu anghenion cymorth pobl
  - gwella ansawdd gofal a/neu chymorth gan gynnwys y canlyniadau i'w cyflawni.
- Mae **Adran 166** wedi galluogi rheoliadau i bennu'r trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Mae'r rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi:
  - pa awdurdodau lleol a byrddau iechyd ddylai feddu ar drefniadau partneriaeth
  - ffurf y trefniadau partneriaeth
  - y ffordd y caiff y trefniadau hyn eu gweithredu a'u rheoli, gan gynnwys rhannu gwybodaeth.
- Mae **Adran 167** yn darparu ar gyfer rheoliadau i alluogi awdurdodau lleol a byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG i gyfrannu tuag at unrhyw wariant yr eir iddo mewn perthynas â threfniadau partneriaeth o dan adran 166. Mae hyn yn cynnwys gwneud taliadau'n uniongyrchol neu gyfrannu at gronfa gyfun. Caiff awdurdod lleol a bwrdd iechyd hefyd ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety neu adnoddau eraill mewn cysylltiad â threfniadau partneriaeth.

Bydd y rheoliadau yn gwneud darpariaethau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i **gronfa gyfun gael ei sefydlu**, er mwyn pennu'r cyfraniadau y bydd partneriaid yn eu gwneud i'r gronfa gyfun, ar gyfer gwariant mewn perthynas â swyddi, gwasanaethau, gweinyddu neu unrhyw gostau eraill sy'n gysylltiedig â threfniadau partneriaeth.

---

<sup>2</sup> Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 [http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/413/pdfs/wsi\\_20160413\\_mi.pdf](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/413/pdfs/wsi_20160413_mi.pdf)

- Mae **Adran 168** yn darparu ar gyfer pwerau i wneud rheoliadau i sefydlu byrddau partneriaeth, mewn perthynas â threfniadau partneriaeth. Mae'r rheoliadau yn pennu aelodaeth byrddau partneriaeth (gan gynnwys aelodau byrddau iechyd), yr amcanion, swyddogaethau a'r gweithdrefnau, ffurf yr adroddiadau, eu cynnwys, eu hamseriad a'u cyhoeddi.
- Mae **Adran 169** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi a diwygio canllawiau ar weithio mewn partneriaeth mewn perthynas ag adran 166 o bryd i'w gilydd. Mae hyn yn gymwys i bartneriaid, sy'n cynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Mae'r canllawiau hefyd yn gymwys i dîm neu berson sy'n cynnal trefniadau partneriaeth ac unrhyw fyrddau partneriaeth a sefydlir o dan adran 168.

Cafodd [canllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 9](#) (Cydwethrediad a Phartneriaeth) eu cyhoeddi ar 18 Rhagfyr 2015.

[Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth \(Cymru\) 2015](#)

## **RHAN 10 – Cwynion, Sylwadau a Gwasanaethau Eiriolaeth**

### • **Adran 171: Cwynion ynglŷn â gwasanaethau cymdeithasol**

Mae'r adran hon yn caniatáu ar gyfer rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth i ystyried cwynion ynglŷn â gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau o dan adran 33 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 neu adran 75 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006. Nid oes unrhyw reoliadau newydd wedi'u gwneud o dan yr adran hon ond mae'r rheoliadau presennol mewn perthynas ag ystyried cwynion yn cael eu trin fel pe baent wedi'u gwneud o dan yr adran hon a byddant yn gymwys o hyd.

### • **Adran 179: Ymchwilio i gŵynion ynglŷn â gofal cymdeithasol a gofal lliniarol a drefnir neu a ariennir yn breifat**

Mae'r adran hon yn dwyn i rym Atodlen 3 i'r Ddeddf. Mae hon yn mewnosod Rhan 2A, Rhan 2B a Rhan 3A newydd yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 sy'n rhoi pwerau i'r Ombwdsmon ymchwilio i gŵynion ynglŷn â mathau penodol o ofal cymdeithasol a gofal lliniarol.

### • **Adran 180: Gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gyfer cwynion ynglŷn â gofal lliniarol a drefnir neu a ariennir yn breifat**

Mae'r adran hon yn diwygio adran 187 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i'w gwneud yn glir bod y ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn gymwys mewn perthynas â chwynion gofal iechyd i'r Ombwdsmon yn unig. Mae hyn yn cynnwys cwynion ynglŷn â darparwyr gofal lliniarol annibynnol.

### • **Adrannau 181 a 182: Darparu gwasanaethau eirioli a chyfyngiadau**

Mae'r cod ymarfer eiriolaeth yn amlinellu cyfrifoldebau'r awdurdodau lleol i sicrhau cymorth eirioli i alluogi oedolion a phlant i allu mynegi eu safbwyntiau, dymuniadau a theimladau mewn perthynas ag arfer dyletswyddau o dan y Ddeddf. Mae'r cod yn cydnabod y cyfrifoldebau a rennir ar gyfer darparu cymorth eirioli ar draws y



GIG. Mae'r cod, felly, yn cadarnhau'r cyfleoedd i gydlynu trefniadau comisiynu trwy drefniadau partneriaeth ffurfiol ac anffurfiol o dan Ran 9 o'r Ddeddf, gan gynnwys cyfrannu at gronfa gyfun er mwyn sicrhau gwell llesiant i blant.

Cafodd y [cod ymarfer ar Ran 10](#) o'r Ddeddf (Eiriolaeth) ei gyhoeddi ar 18 Rhagfyr 2015.

Mae [Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol \(Cymru\) 2014](#) yn gymwys i adran 171.

## **GOBLYGIADAU I FYRDDAU IECHYD AC YMDDIRIEDOLAETHAU'R GIG**

Yn sgil y dyletswyddau sylweddol a osodir ar fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG gan y Ddeddf, fe'ch cynghorir i nodi cynnwys yr adrannau y cyfeirir atynt uchod, a'r rheoliadau, y codau ymarfer a'r canllawiau statudol cysylltiedig. Mae'n bwysig bod byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yn parhau i weithio gyda'u partneriaid awdurdod lleol i roi'r dyletswyddau hyn ar waith, cyn cychwyn y Ddeddf.

O dan drefniadau a gefnogir gan y grant Sicrhau Trawsnewid (fel y'i disgrifir uchod) mae gwaith gweithredu yn cael ei ysgogi ar sail ranbarthol, o dan arweiniad Rheolwyr Gweithredu Rhanbarthol, y mae rhestr ohonynt isod. Confederasiwn GIG Cymru, ar y cyd â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLILC, sy'n arwain y gwaith cyflawni ar lefel genedlaethol.

<b>Caerdydd a'r Fro</b>	Nichola Poole - <a href="mailto:npoole@valeofglamorgan.gov.uk">npool@valeofglamorgan.gov.uk</a>
<b>Cwm Taf</b>	Sian Nowell - <a href="mailto:Sian.Nowell@rctcbc.gov.uk">Sian.Nowell@rctcbc.gov.uk</a>
<b>Gwent</b>	Mark Saunders - <a href="mailto:Mark.Saunders@torfaen.gov.uk">Mark.Saunders@torfaen.gov.uk</a>
<b>Canolbarth a Gorllewin Cymru</b>	Martyn Palfreman - <a href="mailto:MJPalfreman@carmarthenshire.gov.uk">MJPalfreman@carmarthenshire.gov.uk</a>
<b>Gogledd Cymru</b>	Bethan M Jones Edwards <a href="mailto:bethan.m.jonesedwards@denbighshire.gov.uk">bethan.m.jonesedwards@denbighshire.gov.uk</a>
<b>Powys</b>	Sue Hughes - <a href="mailto:sue.hughes@powys.gov.uk">sue.hughes@powys.gov.uk</a>
<b>Bae'r Gorllewin</b>	Sara Harvey - <a href="mailto:Sara.Harvey@swansea.gov.uk">Sara.Harvey@swansea.gov.uk</a>

## **RHAGOR O WYBODAETH**

Ewch i'r dudalen Dysgu ar wefan GIG Cymru i gael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf a'i goblygiadau: [www.learning@NHSWales](http://www.learning@NHSWales)

Mae rhagor o adnoddau dysgu i'w cael hefyd ar wefan Cyngor Gofal Cymru: <http://www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/?force=2>

Hafan Gofal a Chymorth Llywodraeth Cymru: <http://llyw.cymru/topics/health/socialcare/act/?lang=cy>